Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gofal Plant Gogerddan
# Meithrinfa Plas Gogerddan
# Penrhyncoch
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3EB

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 24, 25 2013**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2013**

## Ynglŷn â'r cylch

Cofrestrwyd Meithrinfa Ddydd Plas Gogerddan yn 1996 ar gyfer staff un o adrannau Prifysgol Cymru Aberystwyth. Mae'n feithrinfa a adeiladwyd i'r pwrpas. Ym Mawrth 2012 daeth y cytundeb gyda'r brifysgol i ben a sefydlwyd rheolwraig bresennol Gofal Plant Gogerddan ym mis Hydref 2012. Mae'n feithrinfa breifat sydd wedi'i chofrestri o dan Ddeddf Plant 1989. Mae'r feithrinfa'n cyfarfod pum diwrnod yr wythnos am bum deg un wythnos y flwyddyn o 8.30 y bore tan 6.00 yr hwyr. Mae'r feithrinfa wedi'i lleoli ar gyrion pentref Penrhyncoch tu allan i Aberystwyth. Mae'r ardal yn un nad yw'n freintiedig nac ychwaith yn ddifreintiedig.

Cofrestrwyd y feithrinfa ar gyfer pedwar deg dau o blant. Mae tri deg dau o blant sydd wedi'u cofrestri yn yr ystafell i blant cyn oed ysgol ac mae deunaw ohonynt yn cael eu hariannu. Adeg yr arolygiad roedd naw plentyn wedi'u hariannu'n. Daw dau ohonynt o gartrefi Cymraeg eu hiaith a'r lleill o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae nifer o'r plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac roedd tri'n mynychu'r feithrinfa a chanddynt Saesneg fel ail iaith. Roedd gan un plentyn oedd yn cael ei hariannu adeg yr arolygiad anghenion addysgol arbennig.

Mae'r adeilad yn cynnwys cyntedd, swyddfa ac ystafell athrawon. Defnyddir y cyntedd ar gyfer y plant tair blwydd oed ar gyfer sesiynau Cymraeg, clybiau coginio a garddio. Mae ystafell fawr gyda thoiledau addas, cegin ac ystafelloedd eraill ar gyfer y plant lleiaf. Tu allan mae ardal balmantog ac ardal fawr o laswellt.

Mae pump o ymarferwyr yn cael eu cyflogi i weithio gyda'r plant tair blwydd oed ac maent i gyd yn meddu ar gymwysterau priodol i'r blynyddoedd cynnar gan gynnwys un â chymhwyster dysgu. Mae'r ymarferwr arweiniol yn cefnogi'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r plant. Hi yw'r perchennog a'r rheolwraig. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar 22 Tachwedd, 2011 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn yng Ngorffennaf 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn derbyn gofal a chymorth rhagorol sy'n sicrhau eu bônt yn blodeuo mewn awyrgylch hapus a bywiog lle y teimlant yn ddiogel;
- mae'r amgylchedd dysgu a'r perthnasau rhwng yr oedolion a'r plant a chyda'r rhieni yn rhagorol;
- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth eang o brofiadau cyffrous sy'n ymateb yn dda iawn i'w diddordebau;
- mae safon yr addysgu'n gyson dda;
- defnyddia'r ymarferwyr ystod eang o brofiadau dychmygus sy'n ennyn diddordeb pob plentyn;
- mae'r plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol sy'n cymryd rhan weithredol yn eu dysgu, a'r
- asesu drwy arsylwi a'r defnydd effeithiol a wneir o hyn i gynllunio'r camau nesaf

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn rhagorol oherwydd:

- mae diwylliant cadarn o fyfyrio proffesiynol yn bodoli sydd wedi ei seilio ar hunanarfarnu rhagorol;
- mae gan yr arweinyddes weledigaeth arbennig o glir a chadarn ynglŷn â'r ffordd ymlaen;
- mae'r arweinyddiaeth ragorol yn flaengar ac mae disgwyliadau uchel iawn o bawb;
- mae'r system ragorol o fentora, anwytho ac arfarnu yn cael effaith gadarnhaol iawn ar berfformiad yr ymarferwyr a chyflawniadau'r plant;
- mae'r cynllun gwella lleoliad yn flaengar ac yn uchelgeisiol ac mae'r cynnydd tuag at gyflawni'r targedau'n rhagorol;
- dealltwriaeth arbennig yr ymarferwyr o sut mae'r plentyn ifanc yn dysgu a sut i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r unigolyn;
- ymrwymiad cryf y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus yn enwedig i ddatblygu dulliau blaengar o addysgu, a'r
- gwaith tîm neilltuol.

## Argymhellion

A1. Gwella ar fedrau iaith Gymraeg y plant

A2. Sicrhau nad yw'r tasgau ffocws yn cael eu horgyfeirio

*** Caiff elfennau o'r argymhellion eu cynnwys yn y cynllun gwella lleoliad (CGLl)**

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn yn cyflawni'n dda o'i fan cychwyn a'i gyfnod datblygiad a gwna pob plentyn gynnydd da ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae bron pob plentyn yn datblygu geirfa a phatrymau iaith cadarn. Mae'r mwyafrif yn deall a chyflawni'n gywir gyfarwyddiadau ac atebant gwestiynau yn briodol. Wrth siarad defnyddia'r mwyafrif frawddegau llawn gydag anogaeth yr oedolion. Maent i gyd yn gwrando gyda diddordeb ar stori gan ganolbwyntio'n dda a chydadrodd darnau adnabyddus. Mae'r mwyafrif yn datblygu geirfa eang yn y Gymraeg a defnyddiant hon wrth chwarae rôl weithiau. Serch hynny, nid yw pob plentyn yn defnyddio'r Gymraeg pob amser heb anogaeth oedolion.

Hoffant ganu caneuon yn fawr iawn ac ynganant yn glir. Mae'r mwyafrif yn mwynhau pori drwy lyfrau ac ânt i ddewis llyfrau o'u gwirfodd a'u trafod fel darllenwyr. Mae pawb yn mwynhau gwneud marciau y tu fewn ac yn yr ardal tu allan ac arbrofant yn hyderus ag ystod eang o ddeunyddiau. Defnyddia pob plentyn iaith fathemategol gywir wrth gymharu hyd, taldra neu faint pethau wrth chwarae. Mae'r mwyafrif yn defnyddio'u bysedd i rifo ac adnabyddant siapau cyffredin. Maent yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur a rhaglenni cyfrifiadurol a'r chwaraewr cryno ddisg. Mae pob plentyn yn dangos medrau creadigol da wrth chwarae rôl, ymateb i fiwsig trwy ddawns ac yn eu gwaith celf sydd o safon uchel iawn.

Mae'r plant i gyd yn datblygu lefelau arbennig o annibyniaeth, hunanhyder, a hunanlywodraeth. Gall y mwyafrif ganolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth chwarae ac archwilio eu hamgylchedd y tu allan ac maent i gyd yn mwynhau eu dysgu yn fawr iawn.

**Lles: Rhagorol**

Mae'r plant, yn ddieithriad, yn awyddus iawn i ddod i'r feithrinfa yn y bore ac yn mwynhau pob munud o'u hamser yno. Mae'r perthnasau yn y lleoliad yn rhagorol. Rhydd y berthynas agos a hoffus iawn rhwng yr oedolion a'r plant ymdeimlad braf o ddiogelwch a boddhad iddynt. Mae lefel neilltuol o hunan hyder a hapusrwydd y plant yn dangos eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a dangosant hwythau, yn eu tro, barch a hoffter tuag at yr oedolion. Dangosant hoffter a chonsyrn tuag at ei gilydd, yr ymarferwyr ac ymwelwyr.

Mae pob un yn deall bod bwyta'n iach yn hanfodol bwysig i'w hiechyd. Enwant fwydydd iach a phethau na ddylent fwyta. Maent yn glanhau eu dannedd yn ddyddiol ar ôl byrbryd ac esboniant yn glir sut i wneud hyn yn effeithiol. Mae pob plentyn yn mynd i'r tŷ bach ar ei ben ei hunan ac yna'n golchi ei ddwylo.

Mae gan bob plentyn agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu gan gymryd rhan weithredol a brwdfrydig yn eu profiadau dysgu ac ymddwyn yn hyfryd. Maent yn gwrtais bob amser a dengys pob un ystyriaeth tuag at eraill. Nodwedd ragorol yw gallu'r mwyafrif i uniaethu'n dda gyda theimladau ac anghenion eu ffrindiau.

Gwna'r holl blant ddewisiadau pendant a phenderfyniadau clir ynglŷn â'u dysgu ac y mae pob plentyn yn hyderus dros ben. Gwna'r mwyafrif ffrindiau yn y feithrinfa ac y maent yn hoff iawn o'i gilydd. Maent yn chwilio am eu ffrindiau i ddod i chwarae gyda nhw a dangosant gonsyrn amdanynt.

Maent yn mwynhau eu hymweliadau i'r gymuned leol gan ymweld â'r swyddfa bost ac amgylchedd naturiol y brifysgol ac maent yn cymryd rhan mewn nifer fawr o weithgareddau i godi arian sy'n cynnwys y gymuned

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae safon y cynllunio'n dda. Cyn cynllunio mae'r ymarferwyr yn gwerthuso darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos. Maent yn trafod cyflawniadau, cynnydd ac anghenion unigol pob plentyn ac yn ystyried yr asesiadau a wneir drwy arsylwi. Maent yn cynnwys y plant yn y cynllunio trwy ofyn iddynt am eu diddordebau a beth maent yn hoffi gwneud; mae hon yn nodwedd dda iawn. Maent yn defnyddio'n dda'r holl wybodaeth hon i fwydo'r cylch nesaf o ddarpariaeth; o ganlyniad, mae'r cynllunio yn ymateb yn dda iawn i ddiddordebau ac anghenion y plant. Cynllunnir ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio'n hyblyg ac mae'r ymarferwyr yn ei addasu i gwrdd â diddordebau'r plant. Mae'r oedolion yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrlon iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol ac i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd da iawn i archwilio'u hamgylchedd naturiol yn ardal naturiol y brifysgol lle hoffant archwilio ym mhob tymor y jyngl bambŵ, y goedwig, y nant a'r cae mawr. Maent yn dysgu am ddatblygiad cynaliadwy trwy gasglu bwyd gwastraff a phapur a phlastig i'w hailgylchu.

Drwy ymwneud â'u profiadau diddorol a chydweithio o fewn cymuned ddysgu glos y lleoliad caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu perthynas gadarn gydag eraill. Maent yn dangos parch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill

Mae'r plant yn cael model da o'r iaith Gymraeg yn eu sesiynau dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn ymestyn eu hiaith trwy rigymau, caneuon a straeon sydd yn cynnwys iaith gyfoethog a geirfa eang. Maent yn dathlu diwylliant Cymreig mewn ystod o ffyrdd gan gynnwys cynnal cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi a dathlu dydd Santes Dwynwen a thrwy goginio bwydydd Cymreig traddodiadol.

## Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn y maes ac mae hyn yn rhoi sail dda a chyfeiriad i'r ddarpariaeth. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Mae ymddygiad yn cael ei reoli mewn ffordd sensitif a chadarnhaol iawn ac o ganlyniad mae'r plant yn dysgu tueddfrydau pwysig gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch, sensitifrwydd a charedigrwydd tuag at eraill.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o strategaethau dysgu diddorol i symbylu'r plant yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o gwestiynau pen agored i ymestyn dysgu'r plant a'u medrau meddwl ac mae hyblygrwydd yr addysgu yn cwrdd ag anghenion unigol y plant yn dda. Mae'r dysgu ar ei orau pan fydd y plant yn dewis beth y maent am wneud ac yn cael digon o amser i archwilio a mwynhau eu profiadau ond weithiau mae tueddiad i orgyfeirio'r tasgau ffocws.

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a hyrwydda hyn yn dda eu hannibyniaeth a hunan hyder. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn rhoi digon o amser i'r plant ymgolli yn eu profiadau dysgu, er enghraifft, wrth fynd allan i chwarae ac archwilio ac nid ydynt yn ymyrryd oni bai bod cyfle i ymestyn y dysgu. Mae'r plant yn cael mynediad cyson i'r ardal tu allan ac mae hyn yn cyfoethogi eu dysgu'n dda.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda iawn. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol a thrafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Mae'r ymarferwyr yn bwydo'r wybodaeth a gasglwyd i mewn i'r cylch nesaf o gynllunio; gwelir effaith y wybodaeth hon yn y ddarpariaeth dda. Maent yn cadw cofnodion parhaus o gyflawniadau'r plant yn ei llyfrau "Antur Ddysgu" sy'n cynnwys gwybodaeth drylwyr a lluniau sydd yn rhoi hanes clir o brofiadau, cynnydd, datblygiad a chyflawniadau pob plentyn mewn ffordd ddiddorol iawn. Mae hon yn nodwedd dda iawn. Caiff cynnydd y plant ei fesur yn gyson ymhob maes dysgu ac mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Mae'r rhieni yn derbyn llyfrau "Antur Ddysgu" eu plant pan fyddant yn gadael i fynd i'r ysgol. Mae'r rhain yn rhoi stori pob plentyn a'i amser yn y feithrinfa mewn ffordd sy'n hawdd ei ddeall ac ystyrlon iawn i rieni.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch cartrefol yn y lleoliad ac mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus a hapus iawn. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi ac mae'r ymarferwyr yn dangos parch tuag at eu syniadau a'u diddordebau.

Maent yn datblygu yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini trwy ddarparu byrbryd pod dydd o laeth a grawnfwyd a thrwy sesiynau rheolaidd o ddawns ac ymarfer corff. Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu drwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd a daw rhieni Hindŵaidd i ddathlu Diwali gyda'r plant. Maent yn dathlu rhai o'r prif wyliau Cristnogol megis y Nadolig a Sul y Mamau. Maent yn datblygu

synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas yn dda drwy'r cyfleoedd y maent yn cael i archwilio'r byd naturiol o'u cwmpas yn ardal naturiol y brifysgol. Mae'r oedolion yn meithrin y moesau hynny y maent yn credu sydd yn angenrheidiol i ddatblygiad pob plentyn cyfrifol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd trwy ddilyn esiampl bersonol y staff a thrwy eu harweiniad cadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu'n dda, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd ac i ddatblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu yn eu cymuned fach. Maent yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg. Caiff y plant gyfleoedd cyson i wneud penderfyniadau a dewisiadau a mwynhânt bob gweithgaredd a gynigir iddynt.

Mae'r trefniadau effeithiol sy'n bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad a lles cyffredinol ac yn cefnogi eu dysgu. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ar gyfer diogelu plant ac mae'r staff yn ymwybodol ohono ac yn gwybod yn dda'r camau i'w cymryd. Mae pob un wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac mae'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer diogelu'n weithredol, yn bodloni rheoliadau diogelu ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda a chaiff pob plentyn fynediad i bob maes dysgu a'r holl brofiadau dysgu cyfoethog a ddarperir. Maent yn gwneud cynnydd da.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Mae ethos croesawus, cynnes a chynhwysol iawn yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r oedolion yn dangos hoffter a charedigrwydd mawr tuag at bob un a chaiff pob plentyn ei werthfawrogi. Mae perthnasau rhagorol yn sylfaen i fywyd a gwaith y feithrinfa ac mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion a diddordebau yn arbennig o dda o ganlyniad i'r system o weithwyr allweddol a ddefnyddir. Ymatebant i'r rhain gan ddefnyddio eu gwybodaeth dda o gefndiroedd y plant. Mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i bob agwedd ar y cwricwlwm ac mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. O ganlyniad i'r hoffter a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac ymddygiad rhagorol. Mae'r plant yn dangos diddordeb mawr mewn a charedigrwydd tuag at eu cymheiriaid, yr oedolion ac ymwelwyr.

Mae cyflenwad rhagorol o adnoddau o'r ansawdd uchaf sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r gymhareb oedolion i blant yn rhagorol a medda'r staff ar gymwysterau da. Mae'r staff yn mynd i'r afael â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn neilltuol a derbynia'r plant brofiadau cyffrous sydd yn ymateb yn arbennig o dda i'w diddordebau a'u cyfnod datblygu. Mae'r adeilad wedi'i gynllunio yn unig swydd ar gyfer ei bwrpas ac mae ganddo gyfleusterau rhagorol. Mae'r ystafell yn ddigonol gogyfer y nifer o blant sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Cânt ddigon o le i chwarae rôl, paentio ac edrych ar lyfrau ac mae pob un yn mwynhau profiadau dysgu rhagorol tu allan. Nodwedd ragorol yw'r defnydd cyson a wneir o'r tu allan ac yn enwedig ardal naturiol y brifysgol i gynnig profiadau unigryw i'r plant.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cadarnhaol i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol. Cofrestrir y cylch gan y AGGCC ac nid oedd unrhyw argymhellion yn yr adroddiad diwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Rhydd yr arweinyddes gyfarwyddyd clir a phendant iawn i holl fywyd y lleoliad a'r broses o welliant. Mae ganddi weledigaeth arbennig o glir ynglŷn â'r ffordd ymlaen sydd wedi ei seilio'n gadarn ar ddealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plentyn. Aiff ati'n arbennig o effeithiol i wireddi'r weledigaeth hon yn ei hymdrechion llwyddiannus i helpu bob plentyn i gyflawni ei lawn botensial. Y plentyn a'i anghenion a diddordebau unigryw sydd wrth ganol pob peth a wneir a llwydda'r arweinyddes greu ethos cadarnhaol a hapus iawn.

Mae ei harweinyddiaeth yn flaengar ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn o bawb. Gwelir eu hathroniaeth yn cael ei weithredu drwy'r profiadau dysgu uniongyrchol a chyfoethog a gaiff y plant a'r system trefniant sydd yn caniatáu'r plant i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mae'r arweinyddes yn egnïol iawn a'i harweinyddiaeth yn ddeinamig. Mae'n datblygu'r staff yn dda iawn trwy gyfleoedd helaeth i'r staff gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu datblygu'n broffesiynol. Gwelir effaith y rhain yn y ddarpariaeth greadigol a'r pwyslais ar ddulliau o addysgu, megis sgaffaldio a hyrwyddo meddwl rhanedig cynaliadwy, er mwyn datblygu medrau meddwl y plant.

Mae'r cynllun gwella lleoliad sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau hunan arfarnu'r lleoliad yn rhoi cyfeiriad cadarn iawn iddo. Mae'r arweinyddes yn ymwybodol iawn o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad a dealla a chyflawna eu rôl yn ardderchog. Mae ganddi wybodaeth drylwyr am berfformiad y lleoliad ac mae hi'n defnyddio gwybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol. Mae hi'n cyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol yn llawn. Mae'r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r awdurdod, er enghraifft, gofynion y Cyfnod Sylfaen. Cyflawna pawb eu cyfrifoldebau'n arbennig o effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant. Cyfranna pawb tuag at gynllunio strategol y lleoliad yn frwdfrydig. Rhanna'r arweinyddes y gwerthoedd, nodau ac amcanion y mae am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrwy drafodaeth gyson a hyfforddiant staff.

Mae'r system flaengar a gyflwynwyd gan yr arweinyddes ar gyfer mentora ac anwytho gan athrawes brofiadol ac arweinydd grŵp yn cael effaith gadarnhaol iawn ar berfformiad yr ymarferwyr ac o ganlyniad, cyflawniadau'r plant. Caiff staff newydd eu hanwytho a'u mentora ganddynt hefyd ac maent yn elwa ar gyfnod o ymsefydlu yn y feithrinfa.

Mae gan yr arweinyddes ymrwymiad cadarn i ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn datblygu dulliau blaengar o addysgu ac mae hi wedi llwyddo i greu tîm sy'n gweithio'n hynod o effeithiol gyda'i gilydd.

Mae’r perthnasau â rhieni yn rhagorol ac yn cyfrannu’n sylweddol at ddysgu’r plant. Mae’r arweinyddes yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a’r Awdurdod Lleol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu’n rhagorol. Gwna’r lleoliad ddefnydd rhagorol o’i hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella ac arwain at strategaethau cadarn ar gyfer gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Mae’r arweinyddes yn ymgynghori gyda’r staff, y rhieni a gofalwyr yn arbennig o dda i fwydo'r hunan arfarnu. Mae’n defnyddio’r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth y rhieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu. Mae’n gwneud defnydd hynod o effeithiol hefyd o gefnogaeth athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol ac mae’r staff yn gweithredu ei hargymhellion yn effeithiol iawn.

Yn sgil y broses o hunan arfarnu, cynhyrchwyd cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth ragorol o berfformiad y lleoliad. Mae’r cynllun yn flaengar ac yn uchelgeisiol ac mae’n rhoi cyfeiriad clir i holl fywyd a gwaith y lleoliad. Mae’r cynnydd tuag at gyflawni’r targedau’n rhagorol a chaiff ei fonitro’n gyson. Mae’n canolbwyntio ar godi safonau trwy osod targedau heriol i wella’r ddarpariaeth. Mae’r profiadau creadigol, gweithredol a phlentyn-ganolog sy’n bodloni’n arbennig o dda anghenion a diddordebau’r plant yn deillio o’r broses gadarn o hunanarfarnu ac yn sicrhau effaith positif iawn ar safonau a lles plant.

Mae’r ymarferwyr, gan gynnwys yr arweinyddes, yn cael cyfweliad gwerthuso blynyddol i reoli perfformiad ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol. Maent yn mynychu holl gyrsiau hyfforddiant mewn swydd yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn gyson er mwyn datblygu dulliau newydd o addysgu. Gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu’n rhagorol yr hyn y maent wedi dysgu. Mae’r arweinyddes ac ymarferwyr eraill wedi ymweld â lleoliadau eraill i weld arfer dda. Mae’r staff hefyd yn mynychu cyfarfodydd hyfforddiant gydag ymarferwyr eraill wedi’u trefnu gan yr awdurdod lleol i drafod datblygiadau cyfoes; mae hon yn nodwedd dda iawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n dda gydag eraill i gyflwyno profiadau dysgu. Mae’r arweinyddes yn gweithio yn agos ac effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol a’r swyddog Mudiad Meithrin. Mae canlyniadau cadarnhaol o’r bartneriaeth hon i’w gweld yn y gwelliannau yn y ddarpariaeth a safonau. Mae’r lleoliad yn gweithio’n dda gyda’r GGPG ac mae’r ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant mewnswydd wedi’i drefnu gan Ofal Plant Gogerddan Cyf. mewn cyswllt gyda meithrinfeydd eraill yn yr ardal.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n agos gyda'r rhanddeiliaid, yn enwedig y rhieni, ac maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau ganddynt. Mae bwrdd hysbysu sy’n rhoi gwybodaeth i rieni ynglŷn â gweithgareddau’r feithrinfa a chroesawir argymhellion gan rieni. Mae holiaduron rhieni yn dangos eu bod yn fodlon iawn gyda’r lleoliad. Mae partneriaeth dda gyda’r ysgolion hefyd sy’n hyrwyddo

trosglwyddiad y plant pan fyddant yn gadael. Mae athrawon o ysgolion lleol wedi ymweld â'r plant yn y feithrinfa cyn iddynt ddechrau yn yr ysgolion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cael eu lleoli'n dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u harbenigedd a sicrhau darpariaeth dda. Mae'r staff yn defnyddio adnoddau y tu fewn yn effeithiol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant. Maent yn mesur effaith yr adnoddau ar y dysgu a'r addysgu ac yn cynllunio ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Maent yn defnyddio'r awyr agored yn barhaol i ddatblygu medrau'r plant ymhob maes dysgu drwy brofiadau uniongyrchol cyffrous a dyma un o gryfderau'r ddarpariaeth.

Gwna'r arweinwyr y defnydd gorau o adnoddau'r lleoliad ac o'r cyllid i gynnig y ddarpariaeth orau a llwyddiant i wneud hyn. Mae'r lleoliad yn blaenoriaethu ei wariant i ymateb i'w dargedau ar gyfer gwelliant. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu gwerthuso'n effeithiol gan y rheolwraig er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol wrth godi safonau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Yn y sesiynau ac arsylwyd roedd y plant yn awyddus i ddod i’r feithrinfa ac roeddent yn setlo’n hapus ar ôl cyrraedd. Mae eu perthnasau gyda’u cyfoedion ac oedolion yn rhagorol. Mewn ethos cynwysedig maent i gyd yn teimlo’n ddiogel. Roedd hyn yn amlwg yn eu hyder wrth ddechrau sgyrsiau a gofyn cwestiynau. Mae’r plant i gyd yn dangos ymdeimlad cadarn o ymddiriedaeth ac yn gwybod bod yr ymarferwyr yno i’w helpu.

## Atodiad 2

**Y yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Branwen Llewelyn Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |